Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang mewn dysgu oedolion yn y gymuned a gwaith ieuenctid yng Nghymru

Iechyd ar Waith
CYRRAEDD Y NOD
THE CORPORATE STANDARD
Health at Work

BUDDSODDWYR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE

AWST 2008

Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:

- ysgolion a safleoedd meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol (ALlau);
- ysgolion cynradd;
- ysgolion uwchradd;
- ysgolion arbennig;
- unedau cyfeirio disgyblion;
- ysgolion annibynnol;
- addysg bellach;
- dysgu oedolion yn y gymuned;
- gwasanaethau cymorth ieuenctid;
- hyfforddiant gwaith ieuenctid a chymunedol;
- ALlau;
- addysg a hyfforddiant athrawon;
- dysgu yn y gwaith;
- cwmnïau gyrfaoedd;
- dysgu troseddwyr; ac
- elfennau addysg, arweiniad a hyfforddiant rhaglenni hyfforddi a ariennir gan Yr Adran Gwaith a Phensiynau.

Mae Estyn hefyd:

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill; ac
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gsi.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i'r Gymraeg)

Ⓗ **Hawlfraint y Goron 2008: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y dogfen/cyhoeddiad penodol.**

Cynnwys	Tudalen

Cefndir 1

Cyflwyniad 2

Prif ganfyddiadau 3

Argymhellion 5

Ansawdd a graddfa ADCDF mewn lleoliadau dysgu oedolion yn y gymuned a gwaith ieuenctid 7

Y gefnogaeth sydd ar gael gan sefydliadau sy'n ymroddedig i ADCDF i ddarparwyr dysgu oedolion yn y gymuned, darparwyr gwaith ieuenctid a'u rhwydweithiau 12

Datblygu rhwydweithiau darparwyr dysgu oedolion yn y gymuned a gwaith ieuenctid presennol i gefnogi'r cynllun gweithredu ar gyfer ADCDF 14

Ansawdd a graddfa'r hyfforddiant a gynigir i staff mewn lleoliadau gwaith oedolion ac ieuenctid 15

Atodiad 1: Y saith thema allweddol 16

Atodiad 2: Sut mae un awdurdod lleol yn datblygu gwaith i gefnogi ADCDF 17

Atodiad 3: Ystyriaethau hyfforddi 19

Geirfa 20

Cefndir

1 Yn 2002 cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ddogfen arweiniad, 'Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang – Pam? Beth? Sut?' Mae'r arweiniad yn disgrifio diben Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang (ADCDF). Mae'r gwerthoedd allweddol sy'n gyffredin i'r ddau yn ymwneud â datblygu gwybodaeth, medrau a gwerthoedd er mwyn cymryd rhan mewn penderfyniadau ynghylch gwella ansawdd bywyd a hyrwyddo byd tecach a mwy cynaliadwy.

2 Mae'r arweiniad yn diffinio ADCDF fel:

- y cysylltiadau rhwng cymdeithas, economi a'r amgylchedd a rhwng ein bywydau ni a bywyd pob ar hyd a lled y byd;
- anghenion a hawliau cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol;
- y berthynas rhwng pŵer, adnoddau a hawliau dynol;
- goblygiadau lleol a byd-eang popeth a wnawn; a'r
- camau y gall unigolion a sefydliadau eu cymryd i ymateb i faterion lleol a byd-eang.

3 Mae'r arweiniad yn parhau trwy ddisgrifio naw cysyniad allweddol ADCDF:

- cyd-ddibyniaeth;
- dinasyddiaeth a stiwardiaeth;
- anghenion a hawliau;
- amrywiaeth;
- newid cynaliadwy;
- ansawdd bywyd;
- ansicrwydd a rhagofalon;
- gwerthoedd a chanfyddiadau; a
- datrys anghydfod.

4 Yn 2003, adolygodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ei chynllun datblygu cynaliadwy a mabwysiadodd 'Dechrau Byw'n Wahanol'. O ganlyniad i'r ymgynghoriad a ddilynodd, cafwyd cynllun gweithredu, sef: 'Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang – Strategaeth Weithredu' a gyhoeddwyd yn 2006.

5 Yn 2006, cyhoeddodd Estyn adroddiad 'Sefydlu datganiad sefyllfa ar gyfer Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang yng Nghymru'. Ystyriodd yr adroddiad ddatblygiad ADCDF mewn ysgolion a cholegau addysg bellach yng Nghymru. Mae'r ail adroddiad hwn yn rhoi sylwadau am ADCDF mewn dysgu oedolion yn y gymuned a gwaith ieuenctid yng Nghymru.

Cyflwyniad

6 Diben yr adroddiad hwn yw rhoi datganiad sefyllfa i Lywodraeth Cynulliad Cymru ar y gwaith a gyflwynir ar hyn o bryd i ddysgwyr dysgu oedolion yn y gymuned a phobl ifanc mewn lleoliadau gwaith ieuenctid ar Ddatblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang ac i argymell ffyrdd ymlaen ar gyfer datblygiad y gwaith hwn.

7 Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar:

- raddfa ac ansawdd ADCDF a gyflwynir gan ddarparwyr dysgu oedolion yn y gymuned a gwaith ieuenctid;
- y systemau a'r gefnogaeth sydd ar gael i ddarparwyr sy'n datblygu ADCDF; a'r
- potensial ar gyfer datblygu ADCDF yn y dyfodol.

8 Cyn llunio'r adroddiad, bu'r tîm:

- yn adolygu holl adroddiadau arolygu Estyn ar ddysgu oedolion yn y gymuned, partneriaethau pobl ifanc (PPIau) a dogfennau perthnasol eraill;
- yn archwilio 22 ymateb i holiadur a anfonwyd i bob rhwydwaith dysgu oedolion yn y gymuned a chydlynwyr PPI a gwasanaethau ieuenctid;
- yn cyfweld â 10 uwch swyddog mewn lleoliadau'r sector gwirfoddol ac awdurdod lleol; ac
- yn cyfweld â dau weithiwr allweddol o Lywodraeth Cynulliad Cymru sy'n ymwneud â datblygu ADCDF ar draws Cymru.

Prif ganfyddiadau

9 Yn gyffredinol, mae darparwyr gwaith ieuenctid yn cyflwyno ystod ac ansawdd gwell o ADCDF i ddysgwyr nag y mae darparwyr dysgu oedolion yn y gymuned.

10 Mae bron pob darparwr yn gwneud gwaith sy'n cynnwys elfennau o Ddatblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang. Mae ganddynt bolisïau sefydliadol i well mentrau datblygu cynaliadwy ac i newid diwylliannau yn y sefydliad. Mae llawer o ddarparwyr yn methu â datblygu dull integredig, cadarn ar gyfer ADCDF yn eu sefydliad a'u cynlluniau datblygu.

11 Nid oes gan lawer o ddarparwyr oedolion a gwaith ieuenctid, rhwydweithiau partneriaethau plant a phobl ifanc (PPPhI) a rhwydweithiau dysgu oedolion ddealltwriaeth glir o'r ystod o fanteision addysgol a ddaw o ymgorffori ADCDF yn eu gwaith. Nid yw rheolwyr strategol yn cynllunio'n ddigon da i wneud yn siŵr bod llawer o bolisïau sefydliadol yn cael eu cyflwyno mewn ffordd sy'n cynnwys dysgwyr yn cymryd camau gweithredu. Nid yw llawer o ddarparwyr yn arfarnu effaith ADCDF yn eu rhaglenni ac yn aml, maent yn aneglur ynghylch yr effaith y mae eu gwaith yn ei chael ar ddysgwyr.

12 Nid oes gan ddarparwyr dysgu oedolion yn y gymuned a darparwyr gwaith ieuenctid ddealltwriaeth glir a chyson o'r diffiniad o ADCDF nac o'i ddiben. Mae bron pob darparwr yn gyfarwydd â'r term ADCDF. Fodd bynnag, mae llawer o ddehongliadau o ddibenion ADCDF.

13 Dim ond ychydig ddarparwyr sy'n deall y rhyngberthynas rhwng Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang yn llawn ac sy'n cynllunio'u rhaglenni a'u polisïau i adlewyrchu'r gyd-ddibyniaeth hon fel ei bod yn llywio'u darpariaeth ac yn cael ei hymgorffori yn eu holl ddarpariaeth. Mae llawer o ddarparwyr yn datblygu dealltwriaeth dysgwyr o Ddatblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang. Yn yr achosion gorau, mae'r gwaith hwn yn effeithiol.

14 Mae llawer o ddarparwyr yn dibynnu'n ormodol ar waith prosiect ac yn ceisio datblygu ADCDF ar wahân i weithgareddau dysgu eraill. Nid ydynt yn defnyddio darpariaeth graidd yn gyson i ddatblygu cyfleoedd i ddysgwyr wella'u medrau mewn cyfathrebu, meddwl yn feirniadol, a gweithio gydag eraill mewn grwpiau. Nid yw'r rhan fwyaf o ddarparwyr yn datblygu ffyrdd o gynnwys dysgwyr wrth wneud dewisiadau a phenderfyniadau am eu dysgu.

15 Yn yr achosion gorau, mae gwaith ADCDF gyda dysgwyr iau yn creu cysylltiadau gwell rhwng aelodau hŷn y gymuned â phobl ifanc. Gall y gymuned hŷn yna weld sut y gall pobl ifanc gyfrannu'n gadarnhaol at fywyd cymunedol.

16 Yn rhy aml, mae darparwyr dysgu oedolion yn y gymuned a gwaith ieuenctid yn gweithio'n annibynnol ar ei gilydd ac mae cyflymder y datblygu yn rhy araf. Maent yn aml yn dyblygu gwaith ac yn methu â rhannu adnoddau.

17 Nid yw darparwyr addysg uwch yn gwneud digon i wneud yn siŵr bod cyrsiau sy'n cael eu cynnig i diwtoriaid dysgu oedolion yn y gymuned a staff gwaith ieuenctid yn cynnwys hyfforddiant mewn cyflwyno ADCDF.

18 Nid yw hyfforddiant datblygiad proffesiynol a gynigir i staff gan ddarparwyr dysgu oedolion a gwaith ieuenctid bob amser yn integreiddio achredu yn y cyflwyno yn dda. Nid yw staff yn cael digon o anogaeth i ddefnyddio achredu er mwyn cadw cofnod o'u datblygiad hyfforddi eu hunain.

19 Nid yw gwefan ADCDF Llywodraeth Cynulliad Cymru'n cael ei ddefnyddio i'w llawn botensial. Nid yw'r wefan yn gwneud digon, yn benodol, i gysylltu darparwyr dysgu oedolion yn y gymuned â gwybodaeth gyfredol ac adnoddau priodol ar gyfer eu sector i'w helpu nhw a'u dysgwyr i ddatblygu a gwella'u dealltwriaeth o ADCDF.

20 Nid oes digon o adnoddau o ansawdd da ar gael i diwtoriaid dysgu oedolion yn y gwaith a gweithwyr ieuenctid mewn lleoliadau anffurfiol fel y gallant integreiddio ADCDF yn hawdd i gyflwyniad eu cyrsiau a'u sesiynau.

Argymhellion

Drwy'r Panel Cynghori ar ADCDF, dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru:

A1 cadarnhau'r diffiniad o ADCDF i helpu darparwyr dysgu oedolion yn y gymuned a gwaith ieuenctid ymgorffori ADCDF yn eu polisi sefydliadol a'u cynlluniau cyflwyno;

A2 cydweithio â'r rheiny sy'n gyfrifol am ddysgu oedolion yn y gymuned yn Llywodraeth Cynulliad Cymru i sicrhau bod ADCDF yn cael ei integreiddio mewn polisi hollgynhwysol ar gyfer darparu dysgu oedolion yng Nghymru;

A3 gwneud yn siŵr bod darparwyr mewn lleoliadau dysgu oedolion yn y gymuned a lleoliadau gwaith ieuenctid yn deall cyd-ddibyniaeth Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang er mwyn galluogi iddynt gefnogi dysgwyr i gymryd camau;

A4 gwneud yn siŵr bod rhwydweithiau dysgu oedolion a phartneriaethau plant a phobl ifanc yn meddu ar ddealltwriaeth glir o holl fanteision addysgol ADCDF;

A5 gweithio gyda darparwyr i wella mynediad i gyllid ar gyfer datblygiad proffesiynol a sefydliadol;

A6 gweithio gyda darparwyr i wella'r adnoddau hyfforddiant a dysgu sydd ar gael ar bob lefel, gan gynnwys ar gyfer uwch reolwyr a rheolwyr strategol, fel eu bod yn deall sut y gall ADCDF gael ei gyflwyno mewn lleoliadau oedolion a gwaith ieuenctid;

A7 cefnogi rhwydweithiau dysgu oedolion a phartneriaethau plant a phobl ifanc i ddatblygu ffyrdd o fesur effaith ei gwaith mewn ADCDF;

A8 datblygu strategaeth i gefnogi rhwydweithiau dysgu oedolion yn y gymuned a phartneriaethau plant a phobl ifanc er mwyn sicrhau bod mwy o ddatblygiad ADCDF yn cael ei gysylltu ledled Cymru; a

A9 gwella'r defnydd o wefan ADCDF i:

- gysylltu darparwyr ag adnoddau cyfredol a phriodol ar gyfer lleoliadau oedolion a gwaith ieuenctid; a
- rhannu enghreifftiau o arfer dda ymysg yr holl ddarparwyr yng Nghymru ac mewn gwledydd eraill.

Dylai rhwydweithiau dysgu oedolion lleol a phartneriaethau plant a phobl ifanc:

A10 nodi adnoddau ADCDF o ansawdd da, ar draws pob rhwydwaith, sydd ar gael i diwtoriaid dysgu oedolion yn y gymuned a gweithwyr ieuenctid eu defnyddio wrth gyflwyno; a

A11 gweithio ar y cyd i nodi arfer dda mewn ADCDF a rhannu llwyddiant ar draws y rhwydweithiau er mwyn gwneud y mwyaf o effaith eu gwaith.

Dylai darparwyr dysgu oedolion yn y gymuned a gwaith ieuenctid unigol:

A12 greu mwy o gysylltiadau ar draws rhwydweithiau dysgu oedolion yn y gymuned a gwaith ieuenctid er mwyn gwella gweithio ar y cyd mewn ardaloedd lleol;

A13 cysylltu pob cynllun sefydliadol â strategaeth a chynllun gweithredu Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer ADCDF;

A14 datblygu hyfforddiant ymhellach ar gyfer yr holl staff newydd a'r staff presennol i wella dealltwriaeth o ADCDF ac i ymgorffori ADCDF yn eu gwaith; a

A15 gwneud yn siŵr bod unrhyw hyfforddiant a gynigir i weithwyr yn pwysleisio saith thema allweddol ADCDF (gweler Atodiad 1) fel bod gweithwyr yn gallu gweithredu ar faterion Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang yn eu gwaith.

Ansawdd a graddfa ADCDF mewn lleoliadau dysgu oedolion yn y gymuned a gwaith ieuenctid

21 Nid oes gan ddarparwyr dysgu oedolion yn y gymuned a gwaith ieuenctid ddealltwriaeth glir a chyson o'r diffiniad o ADCDF, nac o'i ddiben. Mae bron pob darparwr yn y sampl yn gyfarwydd â'r term ADCDF. Fodd bynnag, cafwyd nifer o wahanol ddehongliadau o'r diben. Dyma enghreifftiau o'r modd y mae ADCDF wedi'i gynnwys yng nghynlluniau darparwyr:

- polisi datblygu cynaliadwy;
- polisi rheoli amgylcheddol;
- polisi cyfle cyfartal;
- polisi teithio;
- cyflwyno'r cwricwlwm;
- strategaethau iechyd a lles; a
- gwaith prosiect ADCDF targedig.

22 Mewn mwyafrif o achosion, prin yw'r ddealltwriaeth y mae staff sy'n cyflwyno dysgu oedolion yn y gymuned a gwaith ieuenctid yn ei dangos o'r cysylltiadau cryf â'r berthynas agos rhwng Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang. Nid yw mwyafrif y darparwyr bob amser yn adnabod cyfleoedd i ymgorffori ADCDF yn y cwricwlwm presennol. Mae tua hanner y darparwyr yn credu bod ADCDF yn faes cwricwlwm newydd a'i fod yn cael ei addysgu ar wahân.

23 Nid yw llawer o ddarparwyr yn glir ynghylch diben ADCDF a'i ystod, ac felly maent yn ei chael yn anodd asesu pa mor dda y maent yn cynnwys ADCDF yn eu gwaith. O ganlyniad, maent hefyd yn colli cyfleoedd yn aml i weithio ar draws rhwydweithiau a chyda darparwyr eraill. Nid yw llawer o ddarparwyr wedi datblygu ffyrdd o fesur sut mae eu gwaith yn dylanwadu ar ddysgwyr.

24 Mae dros dri chwarter y sampl wedi datblygu ystod dda o bolisïau sefydliadol i gefnogi gwaith sy'n cynnwys ADCDF. Fodd bynnag, at ei gilydd, mae darparwyr yn canolbwyntio mwy o'u gwaith ar ddatblygu cynaliadwy nag ar ddinasyddiaeth fyd-eang.

25 Dim ond ychydig o ddarparwyr sy'n deall cyd-ddibyniaeth ADCDF wrth gynllunio dysgu. Mae'r darparwyr hyn yn gwneud cysylltiadau cryf rhwng Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang yn eu cynlluniau sefydliadol a chyflwyno.

26 Nid yw'r arweiniad presennol ar ADCDF yn ddigon effeithiol wrth hyrwyddo dealltwriaeth o'r cysylltiadau rhwng Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang. Nid yw llawer o ddarparwyr yn gwneud digon i hyrwyddo dealltwriaeth gyda'u staff a'u dysgwyr. Mae'r diagram sydd wedi'i osod yn Atodiad 1 yn cynnig model i ddarparwyr ddeall y cysylltiadau rhwng ADCDF a'i gyflwyno. Mae'r model yn gosod saith thema sy'n cysylltu diffiniad arweiniad Cynulliad Cymru o ADCDF a'i naw cysyniad allweddol.

27 Dyma'r saith thema:

- **cyfoeth a thlodi** Masnach Deg, caffael cynaliadwy;
- **hunaniaeth a diwylliant** cydraddoldeb hiliol, partneriaethau rhyngwladol;
- **dewisiadau a phenderfyniadau** meddwl am ganlyniadau ein penderfyniadau ynghylch ein ffordd o fyw;
- **byw'n iach** corff iach, meddwl iach;
- **y byd naturiol** gweithredu dros fioamrywiaeth, ymweliadau â phrosiectau cefn gwlad;
- **gwastraff a thraul** rheolaeth ar adeiladau a thir; a
- **newid yn yr hinsawdd** y defnydd o ynni, dewisiadau trafnidiaeth, milltiroedd bwyd.

28 Nid yw darparwr yn defnyddio cyfleoedd yn dda mewn ADCDF i ymgorffori cyfleoedd dysgu ehangach ar gyfer dysgwyr yn llwyddiannus. Nid yw darparwyr yn defnyddio ADCDF yn ddigon da lle gall wneud cyfraniad cadarnhaol at ddealltwriaeth dysgwyr, er enghraifft, o:

- ddatblygu safbwynt cyfiawnder cymdeithasol;
- gwerthfawrogi amrywiaeth fyd-eang; a
- datblygiad dinasyddiaeth.

29 Mae llawer o ddarparwyr yn nodi manteision i'w sefydliad o gynnwys ADCDF yn eu cyflwyno. Mae'r holl rwydweithiau dysgu oedolion yn y gymuned leol a phartneriaethau plant a phobl ifanc yn cymryd rhan mewn gwaith sy'n ymwneud ag ADCDF.

30 Ym mwyafrif yr achosion, mae darparwyr gwaith ieuenctid yn cyflwyno ystod ac ansawdd gwell o ADCDF i ddysgwyr nag y mae darparwyr dysgu oedolion yn y gymuned. Mae hyn oherwydd nad oes ymdrech strategol i ddylanwadu ar y cwricwlwm ar gyfer oedolion sy'n ddysgwyr gan Lywodraeth Cynulliad Cymru na chan ddarparwyr unigol neu rwydweithiau dysgu ardal.

31 Mae gan bron bob un o'r darparwyr yn y sampl gynlluniau yn eu lle i ddatblygu eu gwaith ADCDF. Mae llawer ohonynt yn bwriadu cynnig datblygiad proffesiynol parhaus i diwtoriaid ac i ymgorffori datblygu cynaliadwy yn y ddarpariaeth. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o ddarparwyr yn cyfeirio at rwystrau ymarferol a rhwystrau o ran gallu rhag cyflawni'r cynlluniau hyn. Maent o'r farn bod gormod o fentrau gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac nad ydynt yn gwybod pa rai i'w blaenoriaethu.

32 Mae bron yr holl ddarparwyr yn ymgymryd â gwaith sy'n ymwneud ag ADCDF, gan gynnwys:

- polisïau sefydliadol fel arbed ynni a gwneud adeiladau'n fwy cyfeillgar yn amgylcheddol i ddiwylliannau newid yn y sefydliad, er enghraifft drwy rannu teithiau i'r gwaith a mentrau ailgylchu;
- gwaith prosiect sy'n cynnwys byw'n iach, gwella'r amgylchedd lleol a chynnal cynadleddau dydd i drafod materion lleol â chysylltiadau â'r gymuned ehangach;
- gweithio gyda mudiadau arbenigol fel ymddiriedolaeth Groundwork a Chyfanfyd; a
- chyfnewidfeydd pobl ifanc ac oedolion, gan amlaf gyda gwledydd yn Ewrop ond mewn ambell achos, gyda gwledydd y tu hwnt i Ewrop.

33 Mae llawer o enghreifftiau da o gyrsiau ledled Cymru sy'n hyrwyddo iechyd a lles yn dda i oedolion a phobl ifanc. Er enghraifft, mae cysylltiadau â phartneriaid yn y sector gwirfoddol yn y Rhwydwaith Dysgu Newydd yng Nghastell-nedd Port Talbot yn sicrhau bod llawer o ddysgwyr hŷn yn darganfod sut i wella ansawdd eu bywydau. Mewn un ardal Cymunedau yn Gyntaf yn sir Benfro, mae dysgwyr yn defnyddio'r wybodaeth a geir mewn sesiynau byw'n iach i wella ansawdd prydau bwyd eu plant.

34 Mae llawer o ddarparwyr gwaith ieuenctid yn cynnig amrywiaeth eang o brosiectau o ansawdd da sydd wedi'u targedu i fodloni anghenion pobl ifanc. Mae gan ddarparwyr yn y prosiectau hyn ganolbwynt clir ac maent yn gweithio'n dda ar faterion allweddol i bobl ifanc, gan gynnwys byw'n iach, bwyta'n iach ac iechyd rhyw.

35 Mae gweithwyr yn y Rhaglenni Ysgolion Iach yn aml yn adnabod cysylltiadau â llawer o nodau ehangach ADCDF fel;

- ymgynghori a thrafod â phobl ifanc i nodi materion i'w datblygu;
- ymgyrchu a hyrwyddo materion ADCDF yn lleol; a
- datblygu dealltwriaeth ar draws ystod o faterion gan gynnwys ailgylchu, Masnach Deg, dinasyddiaeth, gwella gwybodaeth am ddiwylliannau eraill drwy ddaearyddiaeth, celf a cherddoriaeth, a pharatoi a bwyta bwyd iach.

36 Mae'r canlynol yn enghreifftiau da o bob cwr o Gymru o'r ffordd y mae darparwyr dysgu oedolion yn y gymuned a gwaith ieuenctid yn cefnogi'r themâu ADCDF a ddangosir yn Atodiad 1.

Byw'n Iach/Dewisiadau a phenderfyniadau
Mae gweithwyr yn Rhaglenni Ysgolion Iach Bro Morgannwg a Wrecsam yn gwneud yn siŵr bod yr holl ddarparwyr gwaith ieuenctid a gwasanaethau cymorth ieuenctid eraill yn y bartneriaeth pobl ifanc yn eu hardaloedd yn gwybod am effaith eu gwaith. Mae'r gweithwyr Byw'n Iach hyn yn gwneud defnydd da o gyfleoedd i gynnwys darparwyr gwasanaethau cymorth ieuenctid ynghyd ag ysgolion yn eu rhaglenni. Mae eu cynlluniau'n cysylltu'n dda â'r cynllun gweithredu ADCDF.

Traul a gwastraff/Dewisiadau a phenderfyniadau
Mae'r YMCA yn weithgar ac yn effeithiol wrth gefnogi addysgu ar gyfer datblygu cynaliadwy. Mae staff YMCA yn defnyddio'u cylchlythyr yn dda yn rheolaidd i ddweud wrth yr holl ddysgwyr, tiwtoriaid a rhanddeiliaid am gynaliadwyedd. Mae dysgwyr ar raglenni rheoli troseddwyr yn ail-gychu deunyddiau yn rheolaidd i gynhyrchu a gwerthu eitemau o ansawdd uchel fel addurniadau i'r ardd.

Mae darparwyr dysgu oedolion yn y gymuned yn Nhorfaen yn gwneud yn siŵr bod defnyddwyr yn defnyddio deunyddiau wedi'u hailgylchu mewn dosbarthiadau. Mae darparwyr yn Nhorfaen hefyd yn cydweithio i gynnig hyfforddiant i fudiadau eraill i wella'r ddealltwriaeth o ddatblygu cynaliadwy.

Dewisiadau a phenderfyniadau/Hunaniaeth a diwylliant
Yn sir Gaerfyrddin ac ym Merthyr, mae darparwyr gwaith ieuenctid wedi gwneud cysylltiadau da â chymunedau. Mae'r cysylltiadau hyn yn eu helpu i gefnogi datblygiad gweithgareddau prosiect lleol sydd o fudd i bobl ifanc, i oedolion ac i fentrau adfywio cymunedol. O ganlyniad i'r prosiectau hyn mae canfyddiadau negyddol y gymuned am bobl ifanc yn troi'n gyfleoedd cadarnhaol gyda thrigolion hŷn yn cefnogi prosiectau ieuenctid lleol.

Hunaniaeth a diwylliant/Dewisiadau a phenderfyniadau
Mae enghreifftiau da o brosiectau sy'n helpu pobl ifanc i ddeall mwy am ddinasyddiaeth fyd-eang. Defnyddiodd prosiect ym Mlaenau Gwent wybodaeth am y Glaniadau D-Day yn Normandi yn dda i ehangu dealltwriaeth pobl ifanc o safbwyntiau rhyngwladol.

Dewisiadau a phenderfyniadau
Mae rhai pobl ifanc yn cymryd rhan mewn penderfyniadau ar lefel awdurdod lleol. Er enghraifft, yng Nghasnewydd, mae pobl ifanc wedi dechrau dylanwadu'n uniongyrchol ar benderfyniadau a wneir gan yr awdurdod lleol.

Dewisiadau a phenderfyniadau/Cyfoeth a thlodi
Yng Nghaerffili, mae darparwyr yn gweithio gyda'i gilydd drwy brosiect o'r enw 'the Hub' i wneud yn siŵr bod pobl ifanc yn dysgu am yr amgylchedd, datblygu cynaliadwy a'u lle yn y gymuned.

Hunaniaeth a diwylliant
Mae pobl ifanc mewn un grŵp ieuenctid ym Mhowys yn defnyddio cerddoriaeth a drama yn dda i ddysgu am fywydau pobl ifanc eraill. Fe wnaethant fynychu gŵyl Geltaidd ryngwladol yn Sbaen a datblygu cysylltiadau defnyddiol gyda theatr ieuenctid canol dinas yn Peckham, Llundain.

Yr amgylchedd naturiol/Cyfoeth a thlodi
Yng Ngwynedd, mae oedolion yn mynychu cyrsiau adeiladu waliau cerrig sychion. Mae'r cyrsiau hyn yn cefnogi gwaith amgylcheddol, yn datblygu medrau gwledig lleol ac yn cynnig cyfleoedd gwaith lleol.

Yr Amgylchedd Naturiol
Mae pobl ifanc mewn clwb ieuenctid yn Wrecsam yn gweithio ochr yn ochr â'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol i fynd i'r afael â fandaliaeth mewn parc lleol. Maent yn tacluso'r parc i'w wneud yn amgylchedd mwy dymunol i bobl ymlacio ynddo.

37 Mae llawer o staff ar bob lefel yn ymwneud â mentrau ADCDF. Fodd bynnag, ffactor allweddol yn llwyddiant ADCDF yw ymrwymiad uwch reolwyr. Mae'r ymrwymiad hwn yn arbennig o bwysig er mwyn torri rhwystrau sefydliadol mewnol ac allanol i lawr a phwysleisio'r pwysigrwydd strategol i'r holl staff.

38 Nid yw llawer o reolwyr strategol yn archwilio'u darpariaeth bresennol i gael gwybod lle mae cryfderau'r sefydliad a meysydd i'w datblygu. Nid oes gan lawer ohonynt ddarlun clir o'r hyn y mae angen iddynt ei archwilio. Mae atodiad 1 yn nodi saith thema ADCDF. Byddai defnyddio'r themâu hyn yn helpu staff i fapio'u cynnydd yn ôl yr ystod o weithgareddau sydd wedi'u cynnwys yn yr ADCDF.

39 Nid yw llawer o reolwyr strategol yn ddigon clir yn eu cynlluniau sefydliadol ynghylch sut y dylai staff ymgorffori egwyddorion ac arfer ADCDF yn eu gwaith. Nid yw'r rhan fwyaf o reolwyr strategol yn ddigon clir ynghylch sut byddant yn archwilio ac yn parhau i ymgorffori ADCDF yng nghynlluniau a chyflwyno'r sefydliad.

Y gefnogaeth sydd ar gael gan sefydliadau sy'n ymroddedig i ADCDF i ddarparwyr dysgu oedolion yn y gymuned, darparwyr gwaith ieuenctid a'u rhwydweithiau

40 Mae'r Grŵp Cynghori ADCDF yn cynnal gwefan Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang www.esd-wales.org.uk. Mae sefydliadau yn cofrestru ar y wefan ac yn rhestru'r adnoddau y gallant eu cynnig i eraill. Mae'r wefan yn rhoi cysylltiadau i eraill sy'n cefnogi ADCDF. Cefnogaeth i ysgolion sydd bennaf ymysg yr adnoddau sydd ar gael ar y wefan. Nid oes digon o gysylltiadau ag adnoddau dysgu oedolion yn y gymuned ar y wefan, er bod gwybodaeth well ar gael i leoliadau gwaith ieuenctid. Nid oes gan y wefan ddiweddariadau gwybodaeth rheolaidd sydd wedi'u hanelu at staff gwaith oedolion ac ieuenctid. Nid yw'r Grŵp Cynghori yn gwneud y defnydd gorau o'i wefan. Nid yw'r grŵp yn diweddaru ei wefan ei hun yn rheolaidd i wella mynediad at wybodaeth gyfredol.

41 Mae gan amrywiaeth o sefydliadau eraill wefannau sydd â gwybodaeth ddefnyddiol i ddarparwyr mewn rhwydweithiau dysgu oedolion a phartneriaethau plant a phobl ifanc. Mae'r sefydliadau hyn yn gweithio mewn sawl ardal yng Nghymru. Mae ganddynt oll wybodaeth ddefnyddiol am yr ystod o themâu sydd wedi'u hamlygu ar y diagram yn Atodiad 1.

Sefydliadau cenedlaethol

Mae SustainWales.com (www.sustainWales.com) yn wefan a ddatblygwyd gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA), Cymru Ar-lein, Llywodraeth Cynulliad Cymru (LICC), a Fforwm Datblygu Cynaliadwy Cymru gynt (sydd bellach yn cael ei alw'n Cynnal Cymru) sy'n dwyn ynghyd wybodaeth am unigolion, am fudiadau ac am fusnesau sy'n gweithio ym maes datblygu cynaliadwy yng Nghymru. Mae hefyd yn rhoi mynediad i gylchlythyr ar-lein sy'n rhoi gwybodaeth am ddatblygu cynaliadwy yng Nghymru a'r byd (globallysusdcymru@wales.gsi.gov.uk).

Mae Cyfanfyd (www.cyfanfyd.org.uk) wedi llunio canllawiau arfer dda defnyddiol ar gyfer ADCDF mewn gwaith ieuenctid a dysgu gydol oes sy'n rhoi cysylltiadau da i ddarparwyr sy'n gweithio yng Nghymru. Mae Cyfanfyd hefyd yn cefnogi'r E-rwydwaith Gwaith Ieuenctid Byd-eang. Mae gan y rhwydwaith hwn tua 150 o aelodau o'r sectorau gwaith ieuenctid statudol a gwirfoddol ledled Cymru.

Mae UNA Cyfnewid (www.unaexchange yn cynnig ystod o gyfleoedd gwirfoddoli yng Nghymru a'r byd. Mae'r Cyfnewid yn hyrwyddo ac yn cefnogi dealltwriaeth ryngwladol, cyfnewid diwylliannol a datblygiad cymunedol gan alluogi twf a datblygiad personol gwirfoddolwyr ar yr un pryd. Mae gwirfoddolwyr UNA Cyfnewid bob amser yn gweithio mewn partneriaeth â grwpiau cymunedol lleol.

Mae'r Ganolfan Dechnoleg Amgen (www.cat.org.uk) yn cynnal gwasanaeth gwybodaeth am ddim, gan ateb ymholiadau ar ystod o bynciau. Mae hefyd yn cynnig gwasanaeth ymgynghori ar gyfer prosiectau mwy. Mae ystod dda o daflenni gwybodaeth ar gael am ddim ar y wefan hon am eco adeiladu, effeithlonrwydd ynni, byw effaith isel, ynni adnewyddadwy, cludiant a theithio, a dŵr a glanweithdra.

Sefydliadau lleol

Mae Canolfannau Addysg Datblygiad (CADau) yn ganolfannau lleol annibynnol sy'n codi proffil materion byd-eang ac yn annog gweithredu lleol cadarnhaol dros newydd byd-eang. Mae tri CAD lleol yn gweithio yng Nghymru:

- Global Connections (Canolfan Astudiaethau Byd, Adnoddau a Hyfforddiant) (www.globalconnections.org.uk)
- Canolfan Addysg Amgylchedd a Datblygu Powys (PEDEC) (www.pedec.org.uk) ac
- Y Ganolfan Addysg Byd (www.bangor.ac.uk/addysgbyd).

Rhwydwaith Gweithredu Lleol Sir Benfro er Menter a Datblygu yw PLANED (www.planed.org.uk), yn bartneriaeth datblygu lleol sy'n cael ei arwain gan y gymuned. Mae PLANED yn annog cyfranogiad cymunedau lleol er mwyn ymuno ag ystod o brosiectau i gefnogi ADCDF, ac i gyfrannu medrau a gwybodaeth atynt. Mae'r wefan hon yn rhoi mynediad i ystod o enghreifftiau da o'r gwaith y mae'r rhwydwaith yn ei wneud.

Mae Ymlaen Ceredigion (www.ymlaenceredigion.org.uk) yn gweithio gyda chymunedau lleol ynghyd â'r sectorau cyhoeddus a phreifat drwy brosiectau sy'n cefnogi gwelliant mewn iechyd, ynni cynaliadwy, ailgylchu a lleihau gwastraff cymaint ag y bo modd, ynghyd â chynnig gwasanaethau addysg, gwybodaeth ac ymgynghori. Mae Ymlaen Ceredigion hefyd yn gweithio ar lefel cynllunio strategol, i hyrwyddo polisïau ar gyfer datblygu cynaliadwy yng Ngheredigion ac yng Nghymru.

Mae Fforwm ADCDF De Ddwyrain Cymru (www.sewalesesdgc.org.uk) yn arwain polisi ac arfer lleol mewn ADCDF ym Mlaenau Gwent, Sir Fynwy, Casnewydd a Thorfaen. Mae'n canolbwyntio ar waith mewn ysgolion ond mae ganddo ddogfennau cefnogi defnyddiol ar gyfer darparwyr sy'n datblygu gwaith mewn sectorau eraill.

42 Mae amrywiaeth o fudiadau elusennol eraill fel Cymorth Cristnogol, Oxfam, World Wild Life-UK, Ymddiriedolaeth Groundwork a'r Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar sy'n cynnig cyfleoedd i ddarparwyr yn y sectorau oedolion ac ieuenctid ddatblygu gwaith ADCDF.

Datblygu rhwydweithiau darparwyr dysgu oedolion yn y gymuned a gwaith ieuenctid presennol i gefnogi'r cynllun gweithredu ar gyfer ADCDF

43 Mae darparwyr ledled Cymru yn datblygu rhwydweithiau i gefnogi ADCDF mewn dysgu oedolion yn y gymuned a gwaith ieuenctid. Mae enghreifftiau'n cynnwys rhwydweithiau dysgu oedolion lleol, grwpiau partneriaeth pobl ifanc, Dysgu Cymunedol Cymru, grŵp Rheolwyr Allymestyn Fforwm, Fforwm Addysg Amgylcheddol Abertawe a'r Ganolfan Addysg Byd ym Mhrifysgol Bangor. Mae'r holl grwpiau hyn yn dwyn ynghyd ystod o ddarparwyr i ddatblygu gweithgareddau ADCDF mewn lleoliadau gwaith oedolion ac ieuenctid fel ei gilydd. Fodd bynnag, mae'r rhwydweithiau yn colli cyfleoedd i gysylltu â'i gilydd yn dda. Nid yw'r rhwydweithiau bob amser yn nodi adnoddau a chynlluniau a allai wella gweithio ar y cyd mewn ardaloedd lleol.

44 Er bod y gweithgareddau hyn yn codi proffil ADCDF, nid ydynt bob amser yn helpu i hyrwyddo mwy o ddealltwriaeth o'r cysylltiadau rhwng Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang na sut i ymateb i gynllun gweithredu ADCDF Llywodraeth Cynulliad Cymru. Nid yw gwefan ADCDF yn cael ei defnyddio'n ddigon da fel adnodd i hyrwyddo dealltwriaeth ehangach o'r gwaith.

45 Rhoddir enghraifft o'r ffordd y mae un ardal yn datblygu ei dull strategol o hyrwyddo ADCDF yn Atodiad 2. Mae'n dangos ffyrdd y mae darparwyr yn cyd-gysylltu mewn ardal awdurdod lleol i ddechrau bwrw golwg ar yr ystod o waith yn gyffredinol, i ddatblygu adnoddau ac i greu ffyrdd ar gyfer rhannu arfer dda.

46 Mae RhCA Cymru yn gweithio'n agos â Phanel Cynghori ADCDF i wella'r ffyrdd y mae ADCDF yn cael ei ymgorffori yng nghyflwyniad unedau. Mae hyn yn creu cyfle da i ddarparwyr ystyried sut i gynnwys ADCDF yn gyfannol mewn disgrifwyr unedau. Bydd hyn yn annog darparwyr i gynnwys ADCDF yng nghyflwyniad yr holl ddarpariaeth. Mae gan RhCA Cymru gysylltiadau da ag Adran Dysgu Ieuenctid ac Oedolion Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r rhwydweithiau 14-19. Fodd bynnag, nid oes trefniadau tebyg i ddatblygu'r gwaith ar gyfer rhwydweithiau dysgu oedolion yn y gymuned.

47 Mae grŵp cynghori a gafodd ei gynnull gan Dysgu Cymunedol Cymru a Chyfanfyd wedi adolygu ADCDF mewn dysgu oedolion yn y gymuned er mwyn gwneud argymhellion ar gyfer datblygu ADCDF yn y sector. Mae'r grŵp cynghori yn cynnwys darparwyr dysgu oedolion yn y gymuned ynghyd â chynrychiolwyr addysg uwch, undebau llafur, y Ganolfan Dechnoleg Amgen ym Machynlleth a Rhwydwaith Coleg Agored Cymru. Bydd y grŵp yn gweithredu fel grŵp ymgynghorol ar gyfer y Grŵp Cynghori ADCDF.

Ansawdd a graddfa'r hyfforddiant a gynigir i staff mewn lleoliadau gwaith oedolion ac ieuenctid

48 Mae'r hyfforddiant ADCDF a gynigir i staff gan y darparwyr dysgu oedolion yn y gymuned a gwaith ieuenctid yn aml o safon dda. Fodd bynnag, mae anghysondeb aml o ran sut a lle y'i cynigir. Dim ond lleiafrif o sefydliadau yn y sampl sy'n cynnwys yr hyfforddiant hwn yn arferol.

49 Nid oes digon o hyfforddwyr sy'n gallu cyflwyno ADCDF fel rhan o gyfnod sefydlu neu ddatblygiad proffesiynol parhaus i staff mewn dysgu oedolion yn y gymuned neu waith ieuenctid. Mewn gwaith a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, mae YMCA a Chyfanfyd yn gweithio gyda'i gilydd i gynyddu nifer yr hyfforddwyr sy'n gallu cyflwyno hyfforddiant mewn ADCDF i staff gwaith ieuenctid ar lawr gwlad. Mae hyfforddi hyfforddwyr newydd yn helpu mwy o weithwyr ieuenctid i gyflwyno elfennau o ADCDF fel y'u gosodi yn Atodiad 1 yn llwyddiannus i'w gwaith gyda phobl ifanc. Mae mwy o wybodaeth am yr hyfforddiant hwn wedi'i rhoi yn Atodiad 3.

50 Mae chwech o ardaloedd gwaith ieuenctid awdurdodau lleol wedi cynnal yr hyfforddiant i staff gwaith ieuenctid. Caiff ei gyflwyno mewn ffordd dda, hwylus, gan roi cyfleoedd i weithwyr ddeall sut i ymgysylltu'r bobl ifanc y maent yn gweithio â nhw ag amrywiaeth o weithgareddau sy'n ymwneud â dinasyddiaeth fyd-eang. Mae mwy o wybodaeth am y fenter hon wedi'i chynnwys yn Atodiad 3.

51 Mae'r hyfforddiant hwn a roddir i weithwyr ieuenctid yn aml yn colli cyfleoedd i ymgorffori achredu'n dda yn y cyflwyno. Mae hyn yn golygu nad yw gweithwyr yn defnyddio'r hyfforddiant yn dda i ddatblygu tystiolaeth a'u datblygiad proffesiynol parhaus. Wrth gyflwyno'r hyfforddiant, nid oes digon o bwyslais ar gysylltiadau rhwng dinasyddiaeth fyd-eang a datblygu cynaliadwy. Ni chaiff gweithwyr eu hannog i ddeall y gyd-ddibyniaeth rhwng dwy elfen yr ADCDF.

52 Mewn addysg uwch, nid yw dwy ran o dair o'r sefydliadau sy'n cyflwyno cyrsiau hyfforddiant i diwtoriaid sy'n oedolion a gweithwyr ieuenctid yn cynnwys ADCDF yn eu cyflwyno. Dim ond lleiafrif o'r darparwyr addysg uwch hyn sy'n bwriadu cynnwys ADCDF yn eu cyrsiau. Mae'r darparwyr addysg uwch hynny sy'n cynnwys hyfforddiant ADCDF naill ai yn ei ymgorffori mewn cyrsiau lefel 4 neu mewn hyfforddant blynyddol anffurfiol i diwtoriaid.

53 Nid oes cefnogaeth genedlaethol ar gyfer hyfforddiant ADCDF cyffredinol i holl staff yr holl ddarparwyr ar draws y ddau sector. Byddai'r math hwn o hyfforddiant yn helpu staff o'r ddau sector i hyrwyddo ADCDF a chynllun gweithredu Llywodraeth Cynulliad Cymru yn fwy cyson.

Atodiad 1: Y saith thema allweddol

Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang – model ar gyfer diffinio themâu ADCDF

Mae Estyn a swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi dyfeisio'r model canlynol fel man cychwyn ar gyfer nodi elfennau allweddol ADCDF. Gall y model hwn helpu darparwyr dysgu oedolion yn y gymuned a gwaith ieuenctid, eu staff a'u rhwydweithiau i archwilio'u gwaith presennol ac i barhau i ddatblygu gwaith mewn ADCDF. Bydd yn helpu i nodi cryfderau a meysydd i'w datblygu. Gall darparwyr a'u rhwydweithiau ddefnyddio'r model i ddod o hyd i ffyrdd o wella ymglymu a chyflwyno ADCDF.

Mae'n bosibl y bydd darparwyr yn gweld nad oes rhaid iddynt bob amser ddatblygu gwaith yn yr holl elfennau. Er enghraifft ni all y darparwyr hynny nad ydynt yn rheoli eu hadeiladau a'u tir eu hunain fod â chyfrifoldeb am faterion ADCDF yn y lleoliad hwnnw, ond gallant gefnogi eraill i wella ailgylchu a chaffael.



Atodiad 2: Sut mae un awdurdod lleol yn datblygu gwaith i gefnogi ADCDF

Datblygu ADCDF yn Rhondda Cynon Taf

Mae darparwyr yn Rhondda Cynon Taf wedi creu grŵp Beacon i ddatblygu'r cynllun strategol ADCDF ar gyfer y sir. Swyddog ADCDF y sir sy'n cydlynu cyfarfodydd y grŵp. Caiff ystod eang o ddarparwyr eu cynrychioli yn y grŵp. Mae'r rhain yn cynnwys darparwyr dysgu oedolion yn y gymuned, y gwasanaeth ieuenctid, y sector gwirfoddol, ysgolion, addysg uwch, ac adrannau o'r awdurdod lleol fel adrannau amgylcheddol, ynghyd â'r gweithwyr Ysgolion Iach. Mae'r grŵp hwn eisoes wedi gwneud cais llwyddiannus i'r Adran dros Ddatblygu Rhyngwladol (DfID) er mwyn creu pecyn offer i helpu darparwyr eraill i ddeall sut i ymgorffori ADCDF yn eu harfer.

Fel rhan o'r datblygiadau strategol hyn, mae darparwyr dysgu oedolion yn y gymuned a gwaith ieuenctid Rhondda Cynon Taf wedi datblygu ystod o waith sy'n cefnogi datblygiad ADCDF.

Mae Cyngor Ieuenctid Rhondda Cynon Taf yn gweithio'n dda gyda darparwyr gwasanaethau cymorth ieuenctid. Fel rhan o waith y Cyngor Ieuenctid, cynhyrchodd Canolfan Ieuenctid Bodringallt DVD i amlygu materion yn ymwneud â phroblemau sbwriel yn y gymuned leol a gwnaeth pobl ifanc ym Mhenderyn ffilm fer am eu safbwyntiau ynghylch byw yn eu cymuned. Roedd y ffilm hon yn cynnwys gwybodaeth am hanes, diwydiant, twristiaeth a bywyd cymunedol yr ardal. Cefnogwyd y prosiect gan nifer o sefydliadau. Mae llawer o'r bobl ifanc a gymerodd ran yn y prosiectau hyn yn aelodau o'r Cyngor Ieuenctid ac maent yn parhau i fod yn eiriolwyr dros ADCDF drwy waith y Cyngor Ieuenctid.

Mae darparwyr yn Rhondda Cynon Taf hefyd yn gweithio gydag UNA Cyfnewid i roi cyfleoedd i wirfoddolwyr weithio gyda phobl ifanc ar brosiectau amgylcheddol mewn lleoliadau cymunedol. Ar hyn o bryd mae gwirfoddolwr yn gweithio gyda'r gwasanaeth ieuenctid i gefnogi gwaith gyda phobl ifanc.

Mae darparwyr dysgu oedolion yn y gymuned Rhondda Cynon Taf wedi datblygu gwaith ochr yn ochr â'r Rhwydwaith Pobl Hŷn. Mae gan y Rhwydwaith gynrychiolwyr o blith dysgwyr hŷn, adrannau'r awdurdod lleol a'r sector gwirfoddol. Mae'r Rhwydwaith yn cyfarfod bob chwarter i drafod anghenion dysgu dysgwyr hŷn. Mae darparwyr yn defnyddio'r rhwydwaith yn dda i drafod materion sy'n effeithio ar ddysgwyr hŷn. Un canlyniad o'r cyfarfodydd hyn yw cynnwys gwybodaeth am amserau cludiant cyhoeddus gyda gwybodaeth am gyrsiau er mwyn helpu pobl hŷn i ddefnyddio cludiant cynaliadwy yn haws. Yn ddiweddar, bu'r Rhwydwaith Pobl Hŷn yn dathlu Diwrnod Rhyngwladol Pobl Hŷn gyda dathliad diwrnod o ddysgu ar gyfer pobl hŷn yng Nghanolfan Aman yn Aberdâr.

Mae'r gwaith gyda phobl hŷn yn parhau gyda Gŵyl y Gwanwyn. Bydd gŵyl 2008 yn adeiladu ar waith yr ŵyl yn 2007 a dathliad diwrnod Rhyngwladol Pobl Hŷn. Mae gŵyl 2008 yn cael ei hariannu gan Gelfyddydau Cymunedol Rhondda Cynon Taf, Cyngor Celfyddydau Cymru, Age Concern a Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Mae darparwyr dysgu oedolion yn y gymuned Rhondda Cynon Taf, y Rhwydwaith Pobl Hŷn a Phrifysgol y Drydedd Oes (U3A) yn cydweithio'n dda fel partneriaid mewn rhaglen Grundtvig. Mae'r partneriaid hyn yn cydweithio i gefnogi dysgwyr hŷn i ddod yn ddinasyddion mwy gweithgar ac i sefydlu grwpiau dysgu cynaliadwy lleol gyda'r dysgwyr hŷn hyn. Daw'r partneriaid Ewropeaidd eraill yn y Grundtvig hwn o'r Ffindir, Gwlad yr Iâ, Yr Alban ac Iwerddon. Mae dysgwyr hŷn sy'n cymryd rhan yn y rhaglen oll wedi cyfarfod i rannu a thrafod canlyniadau eu gwaith.

Atodiad 3: Ystyriaethau hyfforddi

Hyfforddiant a Hyfforddi'r Hyfforddwyr mewn ADCDF

Nid oes digon o hyfforddwyr ar gael i gyflwyno hyfforddiant ADCDF integredig, o ansawdd da i staff oedolion a gwaith ieuenctid. Mae YMCA a Chyfanfyd yn cydweithio i ddatblygu ffyrdd o hyfforddi mwy o hyfforddwyr a all gyflwyno hyfforddiant i staff. Mae'r hyfforddwyr hyn yna'n gallu cyflwyno hyfforddiant i staff i'w helpu i ymgorffori ADCDF yn y sesiynau a'r cyrsiau a gyflwynir ganddynt i ddysgwyr.

Mae Cyfanfyd wedi recriwtio nifer o'i aelodau sydd â diddordeb mewn dod yn hyfforddwyr mewn ADCDF. Mae'r aelodau hyn o Cyfanfyd wedi cwblhau cwrs hyfforddiant a gynhaliwyd gan yr YMCA a'u helpodd i ddeall mwy am y medrau a'r technegau sydd eu hangen i gyflwyno hyfforddiant i staff yn dda.

Mae'r YMCA wedi datblygu cyfres o unedau Rhwydwaith y Coleg Agored (RhCA) i gefnogi hyfforddiant hyfforddwyr a gweithwyr sy'n cymryd rhan mewn ADCDF. Nod yr unedau hyn yw datblygu dealltwriaeth o ADCDF ymhellach a chynyddu nifer y gweithwyr sydd ar gael sy'n gallu ei gyflwyno.

Mae'r hyfforddwyr hyn sydd newydd eu hyfforddi bellach wedi defnyddio'r medrau hynny i gyflwyno hyfforddiant i weithwyr ieuenctid mewn ardaloedd lleol. Mae Gwasanaethau Ieuenctid Gwynedd, Rhondda Cynon Taf, Powys, Merthyr, Powys a Sir y Fflint wedi cymryd rhan yn yr hyfforddiant hwn. Mae hyn wedi helpu grŵp o tua 160 o weithwyr ieuenctid ddatblygu medrau i gynnwys ADCDF wrth gyflwyno'u gwaith. Mae mwy o hyfforddiant yn yr arfaeth ar gyfer gweithwyr ieuenctid yng Nghaerffili, Pen-y-bont ar Ogwr, Bro Morgannwg a Chaerdydd.

Geirfa

Age Concern
Elusen a sefydlwyd i wella bywydau'r holl bobl hŷn yng Nghymru. Ei nod yw dylanwadu ar bolisi ac arfer sy'n effeithio ar bobl hŷn, galluogi pobl hŷn i arfer pŵer a rheolaeth dros eu bywydau a chynyddu ymwybyddiaeth o faterion sy'n effeithio ar bobl hŷn.

Y Ganolfan Addysg Byd (WEC)
Canolfan Addysg Datblygiad wedi'i lleoli ym Mhrifysgol Cymru, Bangor. Mae'n gweithio gyda darparwyr addysg gynradd, addysg uwchradd, addysg uwch ac addysg bellach i hyrwyddo datblygu byd-eang a chynaliadwy. Mae'r ganolfan yn ariannu ei gwaith drwy grantiau gan Cymorth Cristnogol, Oxfam, Cronfa Ymwybyddiaeth yr Adran dros Ddatblygu Rhyngwladol (DfID) a'r Fenter Galluogi Cymorth Effeithiol.

Y Ganolfan Dechnoleg Amgen (CAT)
Dyma un o brif ganolfannau eco Ewrop. Mae CAT yn gweithio i godi ymwybyddiaeth a dangos ffyrdd ymarferol o fynd i'r afael â phroblemau sy'n hyrwyddo technolegau a ffyrdd o fywyd sy'n gynaliadwy yn fyd-eang ac yn ddiogel yn ecolegol.

Canolfannau Addysg Datblygiad (CADau)
Mae'r canolfannau hyn yn codi proffil materion byd-eang ac yn annog gweithredu lleol cadarnhaol dros newid byd-eang. Mae pob Canolfan yn diffinio'r gwaith a wneir ganddi mewn ymateb i anghenion ac ymholiadau lleol. Mae'r rhan fwyaf yn gweithio gydag ysgolion, athrawon ac awdurdodau lleol i gyfoethogi'r cwricwlwm. Mae llawer hefyd yn gweithio gyda grwpiau ieuenctid a chymunedol, gwirfoddolwyr, prifysgolion ac oedolion sy'n ddysgwyr.

Mae tair canolfan yng Nghymru:

- Global Connections (Canolfan Astudiaethau'r Byd, Adnoddau a Hyfforddiant) www.globalconnections.org.uk;
- Canolfan Addysg Amgylchedd a Datblygu Powys (PEDEC) www.pedec.org.uk; ac
- Y Ganolfan Addysg Byd www.bangor.ac.uk/addysgbyd

Cyfanfyd
Y gymdeithas addysg datblygiad ar gyfer Cymru. Mae'n cefnogi ac yn hyrwyddo gwaith y rheiny sy'n dod â dealltwriaeth well o faterion byd-eang a materion datblygu i Gymru. Mae ganddo dros 100 o aelodau yn amrywio o elusennau mawr cenedlaethol i unigolion, grwpiau cymunedol, ysgolion ac awdurdodau lleol.

Cyngor Celfyddydau Cymru (CCC)
Mae'n gyfrifol am ariannu a datblygu'r celfyddydau yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn rhoi arian i CCC ariannu'r celfyddydau yng Nghymru.

Cymunedau yn Gyntaf
Rhaglen gan Lywodraeth Cynulliad Cymru sy'n rhoi cyfleoedd i bobl leol chwarae rôl weithgaredd wrth lywio dyfodol eu cymuned. Mae'n rhaglen hirdymor a fydd yn para am o leiaf deng mlynedd. Mae'r rhaglen yn gweithredu mewn ardaloedd lle ceir cyflawniad addysgol, tai ac amgylchedd gwael. Mae Cymunedau yn Gyntaf yn rhoi cyfleoedd i bobl sy'n byw yn yr ardaloedd hyn a'r asiantaethau sy'n cyflwyno gwasanaethau yn y cymunedau hyn wella'u hardaloedd lleol ar y cyd.

Darparwr gwaith ieuenctid
Mae hyn yn cyfeirio at unrhyw fudiad sy'n gweithio gyda phobl ifanc yn y gymuned.

Diwrnod Rhyngwladol Pobl Hŷn
Mae'r Cenhedloedd Unedig wedi pennu 1 Hydref yn Ddiwrnod Rhyngwladol blynyddol Pobl Hŷn. Mae'r diwrnod yn cydnabod y boblogaeth sy'n heneiddio ar draws y byd a phwysigrwydd cynyddol pobl hŷn mewn cymdeithas. Mae'r diwrnod hefyd yn cofio pwysigrwydd byd-eang pobl hŷn a'u lle a'u cyflawniadau mewn cymdeithas.

Dysgu Cymunedol Cymru
Dyma'r mudiad ymbarél ar gyfer dysgu oedolion a chymunedol sy'n cael ei gyflwyno a'u gefnogi gan awdurdodau lleol yng Nghymru. Ei nod yw cynnig cyfleoedd dysgu arloesol, fforddiadwy a hygyrch i bob aelod o gymunedau lleol.

Fforwm
Mae'r grŵp hwn yn cynrychioli'r 23 coleg addysg bellach (AB) a'r tri sefydliad AB yng Nghymru. Mae'n elusen ac mae'n trefnu cyfarfodydd rhwydwaith, ymchwil, ac ymgynghori ar gyfer addysg bellach. Mae'n ceisio dylanwadu ar bolisi, a'i lunio, ym maes addysg ôl-16, hyfforddiant a dysgu gydol oes.

Fforwm Amgylcheddol Abertawe
Mae Fforwm Amgylcheddol Abertawe yn gymdeithas o sefydliadau ac unigolion sy'n cydweithio i gychwyn, datblygu a chydlynu gweithredu amgylcheddol yn Abertawe. Y Fforwm yw'r prif bartner ar gyfer pob agwedd ar yr amgylchedd naturiol ac adeiledig ar gyfer cynllun cymunedol Abertawe.

Gŵyl y Gwanwyn
Dyma ŵyl genedlaethol a gynhelir dros gyfnod o fis ar draws Cymru ym mis Mai, sy'n dathlu creadigrwydd ymysg pobl hŷn. Mae gwanwyn yn dathlu oedran hŷn fel adeg o gyfle am adnewyddu, twf a chreadigrwydd. Mae'r ŵyl yn cynnig cyfleoedd i bobl hŷn chwarae mwy o ran yn y celfyddydau, gan gynnwys y celfyddydau gweledol drama, chwedleua, cerddoriaeth, llenyddiaeth, dawns a ffilm. Mae'r ŵyl yn gyfle i amlygu a hyrwyddo cyfranogiad pobl hŷn yn y celfyddydau drwy gydol y flwyddyn.

Partneriaethau plant a phobl ifanc (PPPhI)
Mae gan bob ardal awdurdod lleol yng Nghymru bartneriaeth plant a phobl ifanc. Mae gan y partneriaethau gynrychiolwyr o'r awdurdod lleol, o wasanaethau iechyd ac o'r sector gwirfoddol. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gofyn bod y partneriaethau hyn yn gwneud yn siŵr y gall plant a phobl ifanc a'u teuluoedd gymryd rhan yn eu gwaith. Mae'r partneriaethau'n arwain y trefniadau cynllunio ac yn gosod y prif flaenoriaethau ar gyfer yr holl wasanaethau lleol sy'n effeithio ar blant a phobl

ifanc. Maent yn arwain y cynlluniau ar gyfer gwaith gyda phob plentyn (0-10) a phobl ifanc (11-25). Mae'r Strategaethau Iechyd, Lles a Gofal Cymdeithasol lleol yna'n cael eu cysylltu â chynlluniau'r bartneriaeth. Mae adroddiadau arolygu ar gyfer gwasanaethau cymorth ieuenctid i'w gweld ar wefan www.estyn.gov.uk

Prifysgol y Drydedd Oes (U3A)
Elusen sy'n cael ei rhedeg gan wirfoddolwyr, ar gyfer pobl nad ydynt mwyach yn gweithio amser llawn. Mae pob grŵp lleol U3A yn defnyddio gwybodaeth, profiad a medrau eu haelodau i drefnu eu grwpiau dysgu eu hunain. Mae pynciau'n amrywio ac maent yn cynnwys celf, ieithoedd, cerddoriaeth, hanes, gwyddorau bywyd, athroniaeth, cyfrifiaduro, ffotograffiaeth a cherdded. Mae tua 40 o grwpiau U3A yng Nghymru.

Y Rhaglen Ysgolion Iach
Menter gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i hyrwyddo gwelliant mewn iechyd a lles plant a'u teuluoedd. Mae gweithwyr yn y rhaglen hon yn trefnu amrywiaeth o weithgareddau hyrwyddo iechyd gyda byrddau iechyd lleol, ymddiriedolaethau'r GIG, awdurdodau lleol, ysgolion, a mudiadau cymunedol, ac amrywiaeth o weithgareddau hyrywddo iechyd.

Rhwydwaith Coleg Agored Cymru
Mae Coleg Agored Cymru yn cefnogi dysgu ac yn ehangu cyfle trwy gydnabod cyflawniad drwy gyrsiau a chymwysterau sy'n seiliedig ar gredydau. Elusen yw'r rhwydwaith ac mae ei aelodaeth yn cynnwys colegau addysg bellach, prifysgolion, awdurdodau lleol, a sefydliadau'r sector gwirfoddol a'r sector preifat.

Rhwydweithiau Dysgu Oedolion
Mae'r rhain yn rhwydweithiau ardal o ddarparwyr a ariennir gan yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (APADGOS). Mae'r darparwyr hyn yn cydweithio ochr yn ochr â'r Cynghorau Gwirfoddol Sirol i gynnig cyfleoedd addysgol i ddysgwyr sy'n oedolion yn y gymuned. Dechreuodd Estyn arolygu'r darparwyr hyn yn 2004 ac mae wedi cwblhau dros hanner yr arolygiadau sydd ar y gweill. Mae copïau o'r adroddiadau arolygu ar wefan Estyn www.estyn.gov.uk

UNA Cyfnewid
Mae Cymdeithas Gyfnewid y Cenhedloedd Unedig yn elusen gofrestredig. Mae ganddi aelodaeth o dros 250 o unigolion. Mae'r rhan fwyaf o'i waith yng Nghymru, ond mae gwirfoddolwyr UNA Cyfnewid yn teithio i dros 50 o wledydd i gymryd rhan mewn prosiectau datblygu lleol ochr yn ochr â phobl leol. Mae'r Cyfnewid yn cefnogi gwirfoddolwyr i ddeall a gwerthfawrogi gwahaniaethau a nodweddion cyffelyb rhwng diwylliannau. Mae UNA Cyfnewid wedi'i leoli yng Nghaerdydd ac fe'i sefydlwyd ym 1973.

Ymddiriedolaeth Groundwork
Ymddiriedolaeth elusennol. Mae'r ymddiriedolaeth yn gweithio ar draws Cymru i gefnogi mentrau sy'n gwella datblygu cynaliadwy a rhaglenni adfywio. Maent yn gweithio'n gyfannol ac yn mynd i'r afael â phroblemau amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol gyda'i gilydd.